

---

Great Western Railway

---

Gwneud y rheilffyrdd yn hygyrch:  
helpu pobl hŷn a phobl anabl

Gorffennaf 2018

**GWR**



---

# Beth sydd y tu mewn?

Ynghylch y ddogfen hon	4
Crynodeb o'n polisi	8
Trefnu cymorth ar gyfer eich taith	12
Cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd	18
Ble i gael y wybodaeth mae ei hangen arnoch	22
Tocynnau a gostyngiadau	26
Gwneud ein gorsafoedd yn hygyrch	30
Gwneud ein trenau'n hygyrch	38
Trefnu trafndiaeth yn lle trenau	42
Eich helpu i wneud cysylltiadau trên	46
Pan fo tarfu ar ein gwasanaethau	50
Beth am gysylltu â ni?	54
Atodiad	56
Cysylltu â ni	69

# Ynghylch y ddogfen hon



---

Rydym yn gwybod bod angen cymorth ar rai o'n cwsmeriaid hŷn a chwsmeriaid ag anabledau wrth deithio. Felly, rydym eisiau eu trin mewn ffordd deg, rhoi iddynt yr hyn mae amynt ei angen i deithio gyda ni, a sicrhau y cânt daith ddiogel a phleserus.

### **Os oes arnoch chi neu rywun rydych yn ei adnabod angen cymorth wrth deithio**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi i chi'r holl wybodaeth mae ei hangen arnoch am ein Polisi Diogelu Pobl Anabl. Bydd yn rhoi i chi fanylion am:

- ein gwasanaethau a'n cyfleusterau
- sut gallwch ddefnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau
- yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym
- beth fydd yn digwydd os na allwn roi i chi'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau mae eu hangen arnoch

---

Hefyd, gallwch ddarllen ‘Gwneud y rheilffyrdd yn hygyrch: Canllaw i’n polisiau a’n harferion’ i gael rhagor o wybodaeth.

Os oes angen copi arnoch

Gallwch ofyn am gopiau o’r ddwy ddogfen yn ein holl orsafoedd â staff, ar **GWR.com** neu gan ein tîm Teithio â Chymorth. Os oes arnoch eu hangen mewn fformat gwahanol, rhowch wybod i’n tîm. Mae gennym gopiau mewn sawl fformat gwahanol, gan gynnwys cryno disg sain a phrint bras, a gallwn eu hanfon atoch o fewn 7 diwrnod

Dyma sut i gysylltu â’n tîm Teithio â Chymorth:

- ffonio yn rhad ac am ddim ar 0800 197 1329
- deialu’r ffôn testun yn rhad ac am ddim ar 18001 0800 197 1329
- anfon neges e-bost at [GWR.assistance@GWR.com](mailto:GWR.assistance@GWR.com) neu fynd i **GWR.com**



# Crynodeb o'n polisi





---

Rydym eisiau gwneud ein holl drenau a gorsafoedd mor hygyrch ag sy'n bosibl i'n cwsmeriaid hŷn a phobl ag anableddau. Felly rydym yn gwrandao ar ein cwsmeriaid i ddarganfod beth mae ei angen arnynt i wneud eu taith yn haws.

Mae ein Rheolwr Symudedd a Chynhwysiant yn sicrhau bod llais gan gwsmeriaid ag anableddau ar draws gwasanaethau GWR trwy weithio gyda chyrrff sy'n eirioli dros anghenion y cwsmeriaid hynny. Er enghraifft:

- Transport Focus
- London TravelWatch
- Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl
- Yr Adran Drafnidiaeth
- Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd

Mae ein rheolwr yn rhannu'r wybodaeth a gesglir â phawb yn GWR. Mae hyn yn ein galluogi i wneud hygyrchedd yn un o'n prif flaenoriaethau. Gallwn ddarganfod yn union beth mae ei angen ar ein cwsmeriaid sydd ag anableddau, yn ogystal â sut i roi cymorth iddynt.

## **Gwella ein gorsafoedd**

Rydym wedi cyflawni llawer o waith i wneud ein gorsafoedd yn fwy hygyrch, a byddwn yn parhau i wneud newidiadau cyhyd â bod y fasnachfaint gennym. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i ychwanegu lifftiau a rampiau i blatfformau trwy brosiect yr Adran Drafnidiaeth, Mynediad i Bawb. Hefyd, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarganfod ffyrdd eraill o wella ein gorsafoedd, fel y gallwn wneud teithio ar drenau'r fwy hygyrch.

---

## **Gwella ein trenau**

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y trenau newydd rydym yn eu prynu, ac unrhyw drenau presennol yr ydym yn eu hadnewyddu, yn cydymffurfio â'r Fanyleb Dechnegol Ewropeaidd Ryngweithredadwyedd ar gyfer Pobl ag Anawsterau Symud (PRM TSI). Os nad yw hyn yn bosibl, rydym yn gofyn am oddefeb neu esemptiad gan yr Adran Drafnidiaeth – ond dim ond ar ôl i ni roi cynnig ar yr holl ffyrdd eraill o sicrhau bod y trenau'n cydymffurfio.

## **Sicrhau ein bod yn cyrraedd y safon**

Rydym wedi ymrwymo i ddilyn y safonau a nodir yn nogfen yr Adran Drafnidiaeth 'Accessible design standards for railway stations: a code of practice', ynghyd â'r safonau a nodir yn y PRM TSI.

## **Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau**

Er ein bod yn dilyn y canllawiau hygyrchedd i'r llythyren, nid ymarfer ticio blychau yn unig mohono. Rydym eisiau rhoi i'n cwsmeriaid mwy na gwasanaeth sy'n gwneud dim ond bodloni'r safonau i bobl ag anabledd.

Felly rydym yn adolygu ein gwasanaeth yn gyson. Rydym yn darganfod sut rydym ni'n gwneud trwy gael adborth oddi wrth ein cwsmeriaid, a thrwy roi prawf ar y gwasanaeth ein hunain, gydag ymarferion cwsmeriaid cudd rheolaidd.

---

Hefyd, rydym yn rhoi hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anableddau i'n holl staff, fel bod modd iddynt ddeall mwy am anabledd a sut mae'n effeithio ar rai o'n cwsmeriaid. Rydym yn hyfforddi ein staff sy'n ymwneud â chwsmeriaid ar sut i gynorthwyo'r bobl y mae angen help arnynt, fel bod modd iddynt sicrhau y cânt daith ddiogel a phleserus.

Hefyd rydym wedi cofrestru ar gyfer Siarter Teithio Cŵn Tywys (2002). Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i weithio gyda chŵn tywys i helpu i'w gwneud yn bosibl i bob perchennog ci tywys deithio'n ddiogel, heb gyfyngiadau na chostau ychwanegol.

---

# Trefnu cymorth ar gyfer eich taith



---

Os oes gennych anabled neu anawsterau symud, gallwch archebu cymorth ar gyfer eich taith gyda ni. Rhwch wybod i ni 24 awr cyn eich taith, a byddwn yn gwneud y canlynol i chi:

- eich helpu i ddod o hyd i'ch gorsaf agosaf sydd â'r cyfleusterau gorau i chi
- eich helpu i gynllunio'r llwybr mwyaf hwylus ar gyfer eich taith
- sicrhau y gwŷr ein staff eich bod yn dod a pha gymorth mae ei angen amoch
- rhoi ichi'r holl help a allwn ar hyd y ffordd – o gwmpas yr orsaf ac ar y trên

### **Sut i archebu cymorth**

Rydym yn dilyn system cymorth i deithwyr y Rail Delivery Group. Felly, gydag un alwad ffôn, gallwch gael yr holl gymorth mae amoch ei angen ar gyfer eich taith. Byddwn yn trefnu popeth, gan gynnwys newidiadau a chysylltiadau sy'n golygu teithio ar drenau cwmnïau eraill.

Hefyd, gallwn roi cyngor i chi am y trenau a'r gorsafoedd yr ydych eisiau eu defnyddio a pha mor hygyrch ydyn nhw. Os nad ydynt yn hygyrch iawn i chi, byddwn yn awgrymu opsiynau eraill i wneud eich taith yn haws.

---

Er mwyn archebu cymorth, gallwch gysylltu â'n tîm Teithio â Chymorth o 6am-11pm bob dydd ac eithrio dydd Nadolig. Hefyd, gall y tîm eich helpu i brynu tocynnau ac archebu seddi. Gallwch:

- ffonio'n rhad ac am ddim ar 0800 197 1329
- deialu'r ffôn testun yn rhad ac am ddim ar 18001 0800 197 1329
- anfon neges e-bost at [GWR.assistance@GWR.com](mailto:GWR.assistance@GWR.com)
- archebu drwy **GWR.com**

Pan fyddant wedi trefnu popeth, byddant yn anfon cadarnhad atoch o'r cymorth y byddwch yn ei gael ar eich taith.

### **Os nad oes staff ar gael i'ch helpu**

Rydym yn hapus i roi cymorth i chi yn unrhyw un o'n gorsafoedd. Ond nid oes staff yn rhai o'n gorsafoedd, neu mae'r staff yn gweithio rhan amser. Ac mae rhai o'n trenau yn rhai 'gyrrwr yn unig'. Os bydd angen i chi ddefnyddio unrhyw un o'r gorsafoedd neu drenau hyn, dylech ffonio ein tîm Teithio â Chymorth hyd at 24 awr ymlaen llaw. Gallant weithio allan a yw'n bosibl i chi wneud y daith rydych wedi'i chynllunio a pha gymorth mae ei angen arnoch, yn ogystal â sicrhau bod rhywun ar gael i'ch helpu.

Hyd yn oed os ydych yn hapus i deithio ar eich pen eich hun, mae'n syniad da gwirio a yw'r gorsafoedd a'r trenau mae arnoch eu hangen yn hygyrch i chi. Yna, gallwch gynllunio eich taith a sicrhau eich bod yn dewis y llwybr mwyaf hygyrch ar gyfer eich taith.

---

## **Os na allwch archebu cymorth cyn teithio**

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i roi cymorth i chi, ond ni allwn sicrhau y gallwn roi'r un lefel o help i chi. Er enghraifft, efallai na fydd ein staff ar gael os bydd arnoch eu hangen, ac efallai na fydd trafnidiaeth yn lle trenau ar gael ar fyr rybudd, felly gall gymryd mwy o amser i drefnu hyn.

Os nad ydych wedi archebu cymorth, ond bod arnoch angen help ar ôl cyrraedd gorsaf heb staff, gallwch ffonio'r gwasanaeth Teithio â Chymorth ar y rhif ffôn ar yr hysbysfwrdd croeso yn yr orsaf, neu wasgu'r botwm gwybodaeth yn y man cymorth ar y plattform i siarad â rhywun a all eich helpu. Bydd yn gwneud hynny a all i wneud eich taith yn haws.

## **Pan fyddwch yn cyrraedd yr orsaf**

Mae'n syniad da cyrraedd yr orsaf mewn da bryd cyn eich trê, fel bod modd i chi roi gwybod i'n staff os oes angen cymorth arnoch. Os ydych chi'n teithio i neu o orsaf Llundain Paddington, sy'n cael ei rheoli gan Network Rail, bydd angen i chi fynd i'r Dderbynfa Cwsmeriaid ar y pen i Blattform 1 sydd agosaf i'r cyntedd. Bydd y staff yn dweud wrth dîm yr orsaf eich bod wedi cyrraedd ac yn ffonio'r orsaf rydych yn teithio iddi fel y gall y tîm yno gyfarfod â chi.

Os ydych wedi archebu cymorth, ein nod yw cyfarfod â chi cyn gynted ag yr ydych yn cyrraedd yr orsaf i ddechrau ar eich taith – ond gall gymryd ychydig mwy o amser os ydym ni'n arbennig o brysur. Pan rydych chi'n cyrraedd yr orsaf rydych yn teithio iddi, ein nod yw cyfarfod â chi o fewn 5 munud. Os ydych chi'n cyrraedd Paddington ac nad oes neb i gyfarfod â chi, ffoniwch 0207 922 6793 i roi gwybod iddynt.

---

Bydd ein tîm Teithio â Chymorth yn dweud wrthych ble i gyfarfod â'r person sy'n eich cynorthwyo. Mae'n amrywio o'r naill orsaf i'r llall, ond gallai fod wrth y:

- swyddfa docynnau
- man gwybodaeth i gwsmeriaid
- gatieu tocynnau

### **Os na roddwn i chi'r cymorth yr ydych wedi ei archebu**

Os nad ydym yn llwyddo i roi i chi'r cymorth y gofynnoch amdano, rhowch wybod i ni. Byddwn yn gwneud iawn am hyn trwy ad-dalu cost lawn eich taith trên.





---

# Cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd



Os ydych yn defnyddio cadair olwyn neu sgwter symudedd, mae croeso i chi deithio ag ef ar ein trenau. Ond mae ychydig o bethau mae angen i chi wybod amdanynt.

### **Cadeiriau olwyn**

Gall ein holl drenau gymryd unrhyw gadeiriau olwyn llaw neu bweredig:

- nad ydynt yn fwy na 700mm o led (neu'n fwy na 610mm o led yn y cerbyd dosbarth cyntaf L ar ein trenau cyflym)
- nad ydynt yn fwy na 1200mm o hyd (gan gynnwys y plât traed)
- sy'n pwysu 300kg neu lai (gan gynnwys pwysau'r cwsmer)

### **Ar y platform**

Pan fyddwch yn defnyddio cadair olwyn ar y platform, peidiwch â mynd yn gyflymach na 3-4 milltir yr awr. Hefyd, dylech aros y tu ôl i'r llinell felen nes y bydd yn bryd mynd ar y trêen.

### **Ar y trêen**

Pan fyddwch ar y trêen, gallwch ddefnyddio'r man i gadeiriau olwyn. Os gallwch chi, gallwch hefyd eistedd ar sedd ar y trêen er mwyn teithio'n fwy diogel.

Pan fyddwch yn archebu â Theithio â Chymorth, mae'n syniad da cadw seddi neu fannau i gadair olwyn ar y trêen hefyd. Gall ein tîm roi manylion i chi am y dewisiadau gorau ar gyfer eich taith. Mae gan rai o'n trenau seddi blaenoriaeth ar ben pob cerbyd, ger y drysau, y gallwch eu cadw ymlaen llaw.

---

Os nad ydych yn gwneud trefniadau ymlaen llaw, mae rhai seddi blaenoriaeth a manau i gadeiriau olwyn nad oes modd eu cadw y gallwch eu defnyddio, ond y cyntaf i'r felin gaiff falu. Bydd ein staff yn gwneud popeth a allant i sicrhau y cewch sedd neu le i'ch cadair olwyn, p'un a ydych wedi ei gadw ai peidio.

### **Os yw rhywun arall yn defnyddio'r sedd neu'r man rydych wedi'i gadw**

Os ydych wedi cadw sedd neu fan ar gyfer eich cadair olwyn a bod rhywun yn ei ddefnyddio pan gyrhaeddwch, rhowch wybod i'n staff. Byddant yn sicrhau y cewch eich sedd – neu sedd wahanol – ac y gallwch barhau â'ch taith fel y bwriadwyd.

### **Sgwteri symudedd**

Os oes gennych sgwter symudedd, mae croeso i chi ddod ag ef gyda chi, ar yr amod bod gennych drwydded. Gallwn gludo'r rhan fwyaf o sgwteri:

- nad ydynt yn fwy na 700mm o led
- nad ydynt yn fwy na 1200mm o hyd
- sy'n pwysu 300kg neu lai (gan gynnwys pwysau'r cwsmer)
- sydd â dyfais sy'n eu hatal rhag tipio

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am drwydded trwy ffonio'r tîm Teithio â Chymorth ar 0800 197 1329.

Neu ewch i **GWR.com**

---

## **Ar y platfform**

Pan fyddwch yn defnyddio sgwter ar y platfform, peidiwch â mynd yn gyflymach na 3-4 milltir yr awr. Hefyd, dylech aros y tu ôl i'r llinell felen nes ei bod yn bryd mynd ar y trêen.

Tynnwch unrhyw fagiau oddi ar eich sgwter cyn i'r trêen gyrraedd, fel na fyddant yn effeithio ar y cydbwysedd os defnyddiwch y ramp. Gall ein staff eich helpu i fynd â'r bagiau ar y trêen.

Os oes angen i chi blygu eich sgwter, gofynnwn i chi ei blygu cyn i'r trêen gyrraedd fel eich bod yn barod i fynd arno. Hefyd, dylech sicrhau y gallwch fynd â'r sgwter ar y trêen ac oddi arno eich hun. Os na allwch wneud hynny, y peth gorau yw sicrhau bod gennych rywun yno i'ch help gydag ef.

Os oes angen i chi blygu eich sgwter, ac y byddai'n haws i chi ddefnyddio cadair olwyn i fynd ar y trêen, rhowch wybod i ni. Mae gan y rhan fwyaf o'n gorsafoedd gadair olwyn ar y platfform. Gallwn drefnu i aelod o'r staff eich helpu i fynd at y trêen os oes angen i chi ei defnyddio.

## **Ar y trêen**

Pan fydd eich sgwter ar y trêen ac wedi cael ei gadw'n ddiogel, eisteddwch ar sedd ar y trêen os gallwch chi, fel bod modd i chi deithio'n fwy diogel. Hefyd, dilynwch unrhyw gyngor mae ein staff yn ei roi i chi i wneud eich taith yn ddiogel ac yn gyfforddus.

## **Os nad oes gennych drwydded**

Gallwn gludo'ch sgwter symudedd o hyd os gellir ei blygu'n llai – dim mwy na maint ces mawr cyffredin – oherwydd gall fynd ar y rac bagiau.

---

Ble i gael hyd i'r  
wybodaeth mae  
arnoch ei hangen



---

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw i chi gael digon o wybodaeth wrth deithio ar y trên. Felly, dyma sut gallwch weld y manylion mae eu hangen arnoch ar gyfer eich taith nesaf.

### **Gwybodaeth am hygyrchedd**

Gallwch gael y manylion diweddaraf am yr holl wasanaethau a chyfleusterau hygyrchedd rydym yn eu cynnig:

- ar **GWR.com**
- ar [www.nationalrail.co.uk/stations](http://www.nationalrail.co.uk/stations)
- ar gynlluniwr teithiau Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol Stations Made Easy, ar [www.nationalrail.co.uk/75001.aspx](http://www.nationalrail.co.uk/75001.aspx)
- trwy ein ffonio ni ar 03457 000 125\* neu Typetalk ar 18001 0800 197 1329
- yn ein swyddfeydd tocynnau

### **Gwybodaeth am eich taith**

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am amserau trenau, gan gynnwys oedi a gwaith gwella wedi'i gynllunio:

- ar **GWR.com**
- ar ein tudalen Facebook, [www.facebook.com/GWRUK](http://www.facebook.com/GWRUK)
- ar ein cyfrif Twitter, @GWRHelp
- trwy ffonio ein tîm Teithio â Chymorth ar 0800 197 1329
- trwy ffonio Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 03457 48 49 50\* neu ffôn testun ar 0345 60 50 600\*\*
- trwy ffonio gwasanaeth Cymraeg Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 0345 60 40 500\*\*

\*Codir ffioedd safonol eich rhwydwaith. Gall costau galwadau o ffonau symudol fod yn uwch.

\*\*Galwadau'n costio 12c y funud o linell tir BT, ond gall costau galwadau o gwmnïau eraill neu ffonau symudol fod yn uwch.

- trwy ddefnyddio gwasanaeth negeseuon testun Train Tracker™ – tecstiwch ‘dep’ ac yna'r orsaf mae ei hangen arnoch i 84950 i gael gwybodaeth amser real (mae negeseuon yn costio 25c a chyfradd arferol eich rhwydwaith)
- trwy ffonio system adnabod llais Train Tracker™ ar 0871 200 49 50, a fydd yn dweud wrthy ch beth yw'r amserau trenau diweddaraf (mae galwadau'n costio 12c y funud o linell tir BT ond gall costau galwadau o gwmnïau eraill a ffonau symudol fod yn uwch)

### **Sut yr ydym yn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol**

Rydym yn gweithio gyda chwmnïau trên eraill i sicrhau bod y gronfa ddata genedlaethol, sy'n cadw'r wybodaeth am ba mor hygyrch yw gorsafoedd y Deyrnas Unedig, yn gywir. Gallwch ddod o hyd i'r gronfa ddata ar: [www.nationalrail.co.uk/stations](http://www.nationalrail.co.uk/stations).

Mae ein Rheolwr Gwybodaeth Cwsmeriaid a'n Rheolwr Symudedd a Chynhwysiant yn sicrhau bod y wybodaeth am ein gorsafoedd yn gyfredol. Un o'r ffyrdd maent yn gwneud hyn yw trwy gysylltu â National Rail i roi manylion am unrhyw newidiadau tymor byr neu heb eu cynllunio a allai effeithio ar deithiau cwsmeriaid. Maent yn diweddarau'r wybodaeth hon o fewn 24 awr o gael gwybod am unrhyw newidiadau. Mae'r wybodaeth maent yn ei throsglwyddo'n cynnwys manylion am:

- y gorsafoedd nad oes modd i ni eu gwneud yn hygyrch oherwydd cyfyngiad ffisegol
- gwaith sylweddol dros dro a fydd yn effeithio ar ba mor hygyrch yw gorsaf
- unrhyw broblemau mewn gorsafoedd sy'n eu gwneud yn anhygyrch dros dro – fel lifftiau a thoiledau nad ydynt yn gweithio





# Tocynnau a gostyngiadau



---

## **Archebu'ch tocynnau gyda'n tîm Teithio â Chymorth**

Os ydych yn archebu cymorth gyda'n ein tîm Teithio â Chymorth, gallant archebu tocynnau drosoch hefyd. Os oes digon o amser, byddant yn eu hanfon at eich cartref cyn eich taith.

Gallwch gasglu eich tocynnau o beiriant neu swyddfa docynnau yn yr orsaf yn fuan ar ôl eu harchebu. Os ydych yn gwneud hyn, bydd amoch angen y cerdyn a ddefnyddioch i dalu amdanynt a'r cyfeirnod archebu.

## **Prynu eich tocynnau eich hun**

Hefyd, gallwch brynu eich tocynnau o:

- swyddfeydd tocynnau yn ein gorsafoedd
- ein peiriannau tocynnau hunanwasanaeth
- **GWR.com**
- cwmnïau trên eraill a'u swyddfeydd tocynnau

Os na allwch brynu tocyn cyn mynd ar y trên, oherwydd eich anabledd, byddwch yn gallu prynu un (gydag unrhyw ostyngiad y mae gennych hawl iddo) ar y trên neu yn eich cyrchfan, heb gosb.

---

## **Os oes gennych Gerdyn Rheilffordd Person Anabl**

Os oes gennych Gerdyn Rheilffordd Person Anabl, rhoddwn ostyngiad i chi pan fyddwch yn prynu eich tocynnau ar lein neu o beiriant tocynnau. Yn y swyddfa docynnau, bydd angen i chi ddangos eich cerdyn rheilffordd wrth eu prynu. Hefyd, bydd angen i chi fynd â'ch cerdyn rheilffordd gyda chi wrth deithio fel bod modd i'n arolygwyr tocynnau sicrhau bod y tocynnau cywir gennych.

I gael mwy o fanylion am y gostyngiad a sut i gael cerdyn rheilffordd, ewch i [www.disabledpersons-railcard.co.uk](http://www.disabledpersons-railcard.co.uk).

## **Os oes gennych Gerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn**

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn, gallwch brynu Cerdyn Rheilffordd Pobl Hŷn. Mae'n ddilys am flwyddyn, ac mae'n rhoi i chi ostyngiad o draean ar docynnau arferol a dosbarth cyntaf ledled y Deyrnas Unedig. Gallwch gael rhagor o wybodaeth:

- yn eich swyddfa docynnau leol
- gan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol ar 03457 48 49 50\*
- ar [www.senior-railcard.co.uk](http://www.senior-railcard.co.uk)

## **Os nad oes gennych gerdyn rheilffordd**

Os nad oes gennych gerdyn rheilffordd, ac rydych wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, neu os ydych yn teithio mewn cadair olwyn, gallwch gael gostyngiad ar docynnau Anytime:

- gostyngiad o 34% ar docynnau Anytime unffordd neu ddwyffordd safonol a dosbarth cyntaf
- gostyngiad o 34% ar docynnau Anytime diwrnod unffordd safonol neu ddosbarth cyntaf
- gostyngiad o 50% ar docynnau Anytime dwyffordd safonol neu ddosbarth cyntaf
- Dylech nodi y gall fod yn rhatach weithiau prynu tocyn Off-peak neu Advance heb ostyngiad

---

Gall eich cydymaith teithio gael y gostyngiad hwn hefyd. Mae rhagor o wybodaeth ar [www.nationalrail.co.uk/stations/destinations/44965.aspx](http://www.nationalrail.co.uk/stations/destinations/44965.aspx).

### **Teithwyr dall neu rannol ddall**

Os ydych yn ddall neu'n rhannol ddall, mae angen i chi wybod y canlynol:

- rhaid i chi deithio gyda rhywun arall i gael y gostyngiad Anytime – os byddwch yn teithio ar eich pen eich hun, mae angen i chi fod â cherdyn rheilffordd i gael gostyngiad
- hefyd, gallwch brynu tocyn tymor oedolyn sy'n galluogi cydymaith i deithio gyda chi yn rhad ac am ddim – nid oes yn rhaid dod â'r un person ar bob taith
- mae angen i chi fod â thystiolaeth o'r nam ar eich golwg pan fyddwch yn prynu eich tocyn a phan fyddwch yn teithio – mae angen iddi fod oddi wrth sefydliad cydnabyddedig fel y gwasanaethau cymdeithasol, Awdurdod Lleol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall neu Blind Veterans UK

# Gwneud ein gorsafoedd yn hygyrch



Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein holl orsafoedd mor hygyrch ag sy'n bosibl i'n cwsmeriaid hŷn a phobl ag anableddau. Dyma sut rydym yn gwneud hyn:

### **Mynedfeydd ac allanfeydd hygyrch**

Rydym yn gweithio gyda National Rail a'r Adran Drafnidiaeth er mwyn darparu mynediad heb risiau i'n gorsafoedd lle bo'n bosibl.

Os ydym yn ystyried cau mynedfa i un o'r gorsafoedd, hyd yn oed dros dro oherwydd pethau fel gwaith adeiladu, rydym bob amser yn ystyried anghenion pobl anabl a lle bo angen yn ymgynghori â Transport Focus a grwpiau mynediad lleol yn gyntaf. Maen nhw'n rhoi gwybod i ni a fydd yn effeithio ar hygyrchedd. Rydym hefyd yn cael caniatâd gan yr Adran Drafnidiaeth. Ac os ydym yn cau mynedfa, rydym yn sicrhau bod ffordd glir arall i mewn i'r orsaf ac allan ohoni.

### **Gwybodaeth glir**

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw hi i'n cwsmeriaid gael y wybodaeth mae arnynt ei hangen ar gyfer eu taith. Felly rydym yn cynnig digonedd o wybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol sy'n addas i'n holl gwsmeriaid – gan gynnwys pobl ag anableddau.

### **Ein swyddfeydd tocynnau a'n manau gwybodaeth i gwsmeriaid**

Y swyddfeydd tocynnau a'r manau gwybodaeth i gwsmeriaid yw'r lleoedd gorau i gwsmeriaid ag anableddau gael y wybodaeth mae arnynt ei hangen. Er enghraifft:

- gall y staff ym mhob un roi manylion ichi am y cyfleusterau a'r gwasanaethau yn yr holl orsafoedd rheilffordd yn y Deyrnas Unedig, a pha mor hygyrch ydyn nhw

- hefyd, gall y staff yn ein mannau gwybodaeth i gwsmeriaid ateb cwestiynau am eich taith – gan gynnwys amserau trenau a chysylltiadau
- mae gan lawer o'n swyddfeydd tocynnau ddolenni sain a chownteri isel – a byddwn yn ychwanegu mwy o'r cyfleusterau hyn wrth i ni adnewyddu pob swyddfa

### **Ein mannau cymorth**

Rydym wedi gosod mannau cymorth hygyrch ar blatfformau ein holl orsafoedd. Mae pob un ohonynt yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amserau trenau, ac mae ganddo un botwm ar gyfer galwadau mewn argyfwng, ac un i gael gwybodaeth, felly gall cwsmeriaid wasgu'r rhain i siarad â rhywun os oes arnynt angen gwybodaeth neu gymorth mewn argyfwng.

Mae gan ein holl fannau cymorth ddolenni sain i gwsmeriaid sydd ag anawsterau clywed. Ac mae'r botymau o wahanol feintiau a lliwiau i gwsmeriaid sy'n ddall neu'n rhannol ddall.

### **Sgriniau gwybodaeth a chyhoeddiadau**

Rydym yn rhoi gwybodaeth gyfredol am drenau, oedi a tharfu o fathau eraill ar ein sgriniau gwybodaeth a thrwy gyhoeddiadau mor aml ag y gallwn.

Os cewch drafferth wrth ddarllen ein sgriniau gwybodaeth neu glywed ein cyhoeddiadau, rhowch wybod i aelod o'r staff. Gall ddweud wrthyhych os oes angen i chi fod ar blatfform gwahanol a'ch helpu i gyrraedd yno'n ddiogel os bydd angen cymorth arnoch.



---

## **Os bydd ein cyfarpar yn torri**

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein holl gyfarpar gwybodaeth hygyrch yn gweithio'n iawn. Os bydd problem yn codi, byddwn yn ei datrys cyn gynted ag y gallwn. A rydym yn sicrhau bod y wybodaeth y mae arnoch ei hangen ar gael gan ein staff, ar bosteri ac oddi wrth y tîm Teithio â Chymorth yn y cyfamser.

## **Taflenni a deunyddiau printiedig eraill**

Rydym yn arddangos ein holl wybodaeth brintiedig yn glir yn ein gorsafoedd, ac yn sicrhau ei bod yn weladwy i bobl mewn cadeiriau olwyn.

Os na allwch ddod o hyd i'r hyn mae arnoch ei angen, rhowch wybod i un o'n tîm a bydd yn gwneud ei orau i ddarparu'r hyn mae arnoch ei angen.

## **Arwyddion**

Fel arfer, mae'r swyddfeydd tocynnau a'r manau gwybodaeth i gwsmeriaid yn ein gorsafoedd mwyaf yn y prif gyntedd neu'n agos ato – ac rydym yn gosod arwyddion clir tuag atynt bob amser. Mewn gorsafoedd llai, rydym yn gosod arwyddion ar bob platform i ddangos i'n cwsmeriaid le yn union mae'r manau gwybodaeth.

---

## **Ein peiriannau tocynnau**

Rydym wedi gosod peiriannau tocynnau awtomatig mewn llawer o'n gorsafoedd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â dogfen yr Adran Drafnidiaeth 'Accessible train station design for disabled people: a code of practice' (y cod ymarfer) o ran hygyrchedd. Ac mae pob un ohonynt yn rhoi gostyngiad i bobl â Cherdyn Rheilffordd Person Anabl a'u cydymaith.

## **Ein gatiâu tocynnau**

Mae gan rai o'n gorsafoedd gatiâu tocynnau awtomatig. Mae hyn yn golygu bod angen tocyn dilys amoch i gyrraedd y platfformau. Mae o leiaf un gât lletach bob amser y gellir ei hagar â llaw i bobl mewn cadair olwyn a phobl sydd ag anawsterau symud. Bydd aelod o'r staff ar gael bob amser i'ch helpu pan fydd y gât ar gau. Fel arall, bydd y gât ar agor i chi allu mynd trwyddi.

## **Toiledau**

Mae llawer o'r toiledau hygyrch yn ein gorsafoedd yn rhan o Gynllun Allwedd Cenedlaethol RADAR – felly mae amoch angen allwedd benodol i'w defnyddio. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hyn, a sut i gael allwedd ar [www.disabilityrightsuk.org](http://www.disabilityrightsuk.org)

Rydym bob amser yn awyddus i osod mwy o doiledau hygyrch yn ein gorsafoedd. A phan fyddwn yn adnewyddu unrhyw doiledau, rydym bob amser yn ceisio eu gwneud yn fwy hygyrch.

---

## **Seddi mewn gorsafoedd**

Mae'r seddi yn ein gorsafoedd yn amrywio o ran oedran, math a hygyrchedd. Gallwch weld manylion yr orsaf mae arnoch ei hangen ar [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk), a'i offeryn Stations Made Easy.

Pryd bynnag yr ydym yn newid neu'n adnewyddu ein seddi, rydym yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chod ymarfer y safonau dylunio ar gyfer gorsafoedd rheilffordd hygyrch.

## **Bagiau**

Os ydych wedi archebu cymorth ar gyfer eich taith, gallwn ein helpu i symud o gwmpas yr orsaf gydag unrhyw fagiau sydd gennych.

Gallwch ddod â hyd at dri bag gyda chi ond dylech gofio mai lle cyfyngedig sydd i fagiau ar ein trenau, a bod yn rhaid i'r staff allu codi'ch bagiau'n ddiogel, felly rhowch ystyriaeth i faint a phwysau unrhyw fagiau y dewch â nhw gyda chi.

## **Storio eich bagiau**

Nid oes gennym gyfleusterau i gadw bagiau yn unrhyw un o'n gorsafoedd ar hyn o bryd.

Os ydych chi'n defnyddio gorsaf Llundain Paddington, sy'n cael ei rheoli gan Network Rail, mae storfa bagiau ar Blattform 12 sydd â mynediad heb risiau. Mae'n cael ei rhedeg gan yr Excess Baggage Company ac mae ar agor rhwng 7am ac 11pm o ddydd Llun i ddydd Sul.

---

## Rampiau

Gallwn helpu cwsmeriaid sy'n defnyddio cadair olwyn neu sgwter symudedd i fynd ar y trêen ac oddi arno gyda ramp cludadwy, sydd wedi'i ddylunio a'i brofi yn benodol at y diben hwn. Mae rampiau ar lawer o'n trenau. Ond, ar gyfer y rhai heb rampiau (er enghraifft, trenau 'gyrrwr yn unig'), rydym yn darparu rampiau ar blatfformau'r gorsafoedd â staff y mae'r trenau yn aros ynddynt.

Mae'r staff yn ein gorsafoedd a'n criwiau trêen wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r rampiau'n ddiogel, ac i helpu pobl ag anableddau i fynd ar y trêen ac oddi arno. Os oes amoch angen ramp, ac rydych wedi archebu cymorth trwy ein gwasanaeth Teithio â Chymorth, bydd aelod o'r staff yn barod i'ch helpu pan fyddwch yn cyrraedd yr orsaf. Os nad ydych wedi trefnu cymorth, rhowch wybod i'r staff bod angen ramp amoch pan fyddwch yn cyrraedd. Byddant yn eich helpu i fynd ar y trêen yn ddiogel.

Pan fydd angen i chi fynd oddi ar y trêen, bydd ein criw trêen naill ai yn eich helpu eu hunain trwy osod ramp, neu'n trefnu i staff yr orsaf eich helpu.

Yn rhai o'n gorsafoedd mwyaf, gallwn ddarparu cadair olwyn i'ch helpu os oes angen i chi ei defnyddio hyd at y trêen. Am resymau diogelwch, ni allant godi unrhyw un i gadair olwyn neu allan ohoni, i fyny grisiau nac i sedd ar y trêen.

---

## **Cyfleusterau a ddarperir gan drydydd partiön**

Rydym bob amser yn gweithio'n galed i wella hygyrchedd y cyfleusterau mewn gorsafoedd a ddarperir gan drydydd partiön. Er enghraifft, rydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a cymdeithasau tacsis i ddarparu, lle bo modd, tacsis hygyrch yn y safleoedd a reolir gan GWR. Hefyd, rydym yn annog perchnogion siopau neu gaffis yn ein gorsafoedd i'w gwneud mor hygyrch ag sy'n bosibl.

## **Diogelwch**

Mae gan lawer o'n gorsafoedd Achrediad Gorsaf Ddiogel. Mae'n gynllun cenedlaethol, a arweinir gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gyda'r Adran Drafnidiaeth. Mae'n gosod arfer da ac yn achredu gorsafoedd unigol sydd wedi gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth a phartneriaid lleol eraill i wneud yr orsaf yn fwy diogel. Fe'i fwriedir nid yn unig i wneud gorsafoedd yn fwy diogel, ond hefyd i roi sicrwydd i deithwyr a staff bod cwmnïau rheilffordd bob amser yn chwilio am ffyrdd o atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

---

# Gwneud ein trenau'n hygyrch



Rydym yn gwneud popeth a allwn i'w gwneud yn ddiogel ac yn hawdd i'n cwsmeriaid hŷn a phobl ag anableddau deithio ar ein trenau. Dyma sut rydym yn gwneud hynny:

### **Sgriniau gwybodaeth a chyhoeddiadau**

Mae gan ein holl drenau system sain er mwyn i'r criw trê'n roi diweddariadau yn ystod y daith. Yn ogystal, mae gan rai o'n trenau sgriniau sgrolio sy'n rhoi gwybodaeth i deithwyr, yn ogystal â chyhoeddiadau awtomatig – gallwch weld pa rai yn Atodiad A. Erbyn 2020, rydym yn gobeithio gosod sgriniau a chyhoeddiadau awtomatig yn ein trenau hŷn hefyd.

Yn ystod yr holl deithiau ar ein trenau, ceir cyhoeddiadau sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid pa orsaf yw'r un nesaf. Rydym yn gwneud y cyhoeddiadau hyn mewn da bryd i gwsmeriaid ag anableddau baratoi i adael y trê'n yn ddiogel.

Mae ein criw trê'n, neu'r gyrrwyr ar drenau 'gyrrwyr yn unig' yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid am oedi neu darfu o fathau eraill. Gall y criw helpu cwsmeriaid i wneud trefniadau eraill os oes angen. Ar drenau 'gyrrwr yn unig', gall y staff yn yr orsaf eich helpu.

### **Seddi a manau i gadeiriau olwyn**

Gallwch weld y wybodaeth mae arnoch ei hangen am seddi blaenoriaeth a manau i gadeiriau olwyn ar dudalen 18.

---

## Cardiau Seddi Blaenoriaeth

Rydym bob amser yn gofyn i'n cwsmeriaid ildio seddi blaenoriaeth i'r bobl hynny y mae arnynt eu hangen yn fwy. Ond nid yw'n amlwg bob amser pam mae angen sedd ar rywun.

Os oes angen i chi eistedd wrth deithio, mae'n bosibl y gallech gael un o'n Cardiau Seddi Blaenoriaeth. Yna, pan fyddwch yn gofyn i rywun roi ei sedd i chi, gallwch ddangos eich cerdyn heb deimlo'n chwithig na gofod esbonio unrhyw beth.

Maen nhw'n rhad ac am ddim, a gallwch wneud cais am un:

- os oes gennych anabled neu gyflwr meddygol sy'n effeithio ar eich gallu i sefyll yn gyfforddus neu yn ddiogel ar drên
- os ydych wedi'ch cofrestru â nam ar eich golwg
- os ydych yn feichiog
- os ydych yn teithio gyda phlentyn sydd dan 3 oed
- os ydych dros 65 oed

I gael rhagor o fanylion am sut i wneud cais, ewch i **GWR.com** neu ffoniwch 0800 197 1329.

## Os oes gennych gi tywys neu gi cymorth

Mae croeso i chi a'ch ci tywys neu gi cymorth ar ein trenau.

Nid ydym yn caniatáu i gŵn fynd i'r cerbydau bwffe fel arfer. Ond gallwch ddod â'ch ci cymorth wedi'i gofrestru gydag ADUK i mewn – rhowch wybod i'r criw trên yn gyntaf. Rydym hefyd yn fodlon i'ch ci aros gyda chi yn eich cabin mewn cerbyd cysgu heb gost ychwanegol.



---

## **Prynu lluniaeth**

Os ydych eisiau prynu byrbrydau neu ddiodydd ar eich taith, ond nad ydych yn gallu mynd i'r cerbyd bwffe ac yn ôl yn hawdd, bydd ein criw trên yn hapus i'ch helpu. Gallant drefnu bod rhywun yn dod â rhai mathau o luniaeth at eich sedd.

## **Gwybodaeth am ein cerbydau**

Gallwch weld disgrifiad byr o'r cyfleusterau ar ein trenau, ac o'u llwybrau arferol, yn Atodiad A.

# Trefnu trafnidiaeth yn lle trenau



Byddem wrth ein bodd pe bai ein holl orsafoedd a threnau'n gwbl hygyrch i'n holl gwsmeriaid. Yn anffodus, nid yw hyn yn bosibl. Er enghraifft, mae gan rai o'n gorsafoedd gyfyngiadau ffisegol sy'n golygu na allwn wneud gwelliannau. Ond rydym bob amser yn hapus i drefnu trafndiaeth o fath arall i chi os na fyddwch yn gallu defnyddio'r orsaf neu'r trêen mae ei angen amoch.

### **Pryd y byddwn yn trefnu trafndiaeth wahanol i chi**

Os nad yw eich gorsaf leol neu'r orsaf y mae angen i chi ei chyrraedd yn hygyrch, mae'n syniad da ffonio ein tîm Teithio â Chymorth 24 awr cyn eich taith. Byddant yn trafod eich opsiynau teithio gyda chi ac yn darganfod pa gymorth mae ei angen amoch. Hefyd, gallant drefnu i chi fynd i ac o orsaf sy'n anhygyrch yn rhad ac am ddim.

Weithiau, os nad yw'r platfform mae ei angen amoch yn hygyrch, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi fynd i'r orsaf hygyrch nesaf ac yna ddychwelyd i'r orsaf rydych eisiau mynd iddi i blatfform mwy hygyrch. Dim ond os oes trenau'n mynd i'ch gorsaf yn aml yr ydym yn gwneud hyn, ac nid ydym byth yn codi mwy o arian amoch.

### **Os ydym ni'n rhedeg bws yn lle trêen**

Os oes angen i ni redeg bws yn lle trêen penodol, rydym yn darparu opsiynau hygyrch lle bynnag y gallwn. Ar hyn o bryd, nid yw'r holl fysiau rydym yn eu defnyddio'n gwbl hygyrch. Felly, os oes gennym gwsmeriaid y mae amynt angen opsiwn hygyrch, gallwn drefnu tacsï iddynt yn lle'r bws.

---

## Trefnu tacsï

Os ydych wedi trefnu'ch taith gyda gwasanaeth Teithio â Chymorth, ac mae angen tacsï arnoch yn lle eich trŷn neu fws sy'n rhedeg yn ei le, gallwn drefnu tacsï hygyrch i chi. Mae Cabfind yn archebu ein tacsï drosom, gan fod modd iddynt eu harchebu o gwmnïau amrywiol sydd â cherbydau hygyrch.

Byddwn yn sicrhau bod y staff yn yr orsaf yr ydych yn mynd iddi yn gwybod eich bod yn dod mewn tacsï, fel y gallant gyfarfod â chi pan fyddwch yn cyrraedd.

Os nad ydych wedi archebu cymorth ymlaen llaw, rhowch wybod i ni cyn gynted ag y gallwch bod angen tacsï arnoch. Bydd ein staff yn archebu un i chi, ond ni fydd sicrwydd y bydd un ar gael ar unwaith.

## Rhoi i chi'r drafnidiaeth a'r wybodaeth mae arnoch eu hangen

Os oes angen i ni redeg trafnidiaeth o fath arall i chi, rydym yn gweithio'n galed bob amser i roi gwybodaeth glir i chi – ar sgriniau ac arwyddion a thrwy gyhoeddiadau. Hefyd, rydym bob amser yn sicrhau bod staff ar gael i ateb cwestiynau ac i'ch helpu ar eich taith.



Eich helpu  
i wneud  
cysylltiadau



---

## **Newid trên**

Os bydd angen i chi newid trên ar eich taith, gallwn eich helpu p'un a ydych wedi archebu cymorth gyda ni ai peidio. Ond mewn gorsafoedd â staff yn unig y bydd hyn. Os nad oes staff yn yr orsaf y mae arnoch ei hangen, bydd angen i chi drefnu cymorth gyda'n tîm Teithio â Chymorth. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am drefnu hyn ar dudalen 12.

## **Pan fo platfform yn newid**

Weithiau gall y platfform ar gyfer trên penodol newid ar fyr rybudd. Pan fo hyn yn digwydd, bydd ein staff yn rhoi gwybod i chi ac yn eich helpu i gyrraedd y platfform newydd mor gyflym ac mor ddiogel ag sy'n bosibl.

## **Os ydych yn parhau â'ch taith â mathau eraill o drafnidiaeth**

Gallwn eich cyfeirio at fathau eraill o drafnidiaeth hygyrch – fel bysiau neu dacsis – os ydych chi'n teithio ymlaen o'r orsaf. Ac rydym yn ei gwneud mor hawdd ag y gallwn i chi:

- rydym yn sicrhau bod arwyddion clir at y safleoedd tacsis a bysiau o gwmpas ein gorsafoedd
- rydym yn arddangos gwybodaeth am dacsis a bysiau lleol – gan gynnwys rhai hygyrch
- mae gennym fannau codi a gollwng teithwyr y tu allan i'n gorsafoedd (rhai gyda chyrbiau isel hefyd) mor agos at y mynedfeydd a'r allanfeydd ag sy'n bosibl

- 
- rydym yn gweithio gyda chwmnïau bws ac awdurdodau lleol i sicrhau bod mynediad heb risiau rhwng bysiau a threnau lle bynnag y bo'n bosibl
  - rydym yn sicrhau bod gan feysydd parcio ein holl orsafoedd nifer briodol o fannau parcio dynodedig i gwsmeriaid ag anableddau, a gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein dogfen 'Gwneud y rheilffyrdd yn hygyrch: Canllaw i'n polisïau a'n harferion'
  - rydym yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tacsis i ddarparu, lle bo modd, tacsis hygyrch yn y safleoedd a reolir gan GWR – os nad oes un, rydym yn gofyn i Cabfind drefnu un drosom ni





---

# Pan fo tarfu ar ein gwasanaethau



Rydym yn deall y gall tarfu ar ein gwasanaethau neu gyfleusterau gael effaith fawr ar gwsmeriaid ag anableddau. Os oes unrhyw broblemau, rydym yn gwneud popeth a allwn i leihau'r effaith cymaint ag sy'n bosibl, a sicrhau y gallwn gyrraedd lle mae angen i chi fod.

### **Os caiff trenau eu canslo neu os oes oedi iddynt**

Rydym yn trefnu trafndiaeth o fath arall, ar hyd yr un llwybr â'r trê'n y mae effaith arno, cyn gynted ag sy'n bosibl. Ceir rhagor o wybodaeth am drafndiaeth yn lle trenau ar dudalen 42.

Os ydych wedi archebu cymorth trwy'r gwasanaeth Teithio â Chymorth, byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd unrhyw beth yn cael effaith ddifrifol ar eich taith cyn gynted ag y gwyddom amdano. Ar yr amod bod eich manylion cyswllt gennym, byddwn yn cysylltu â chi i wneud trefniadau gwahanol os bydd angen.

### **Rhoi gwybodaeth i chi**

Os nad yw unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau hygyrchedd ar gael ar drên neu mewn gorsaf, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhoi ar:

- **GWR.com**
- sgriniau gwybodaeth i gwsmeriaid
- gwefan Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol cyn pen 24 awr ar ôl i ni gael gwybod

## **Os oes argyfwng**

Ein blaenoriaeth yw cadw ein cwsmeriaid yn ddiogel. Felly wrth ymdrin ag argyfwng, rydym yn gwneud popeth a allwn i roi i'n cwsmeriaid y cymorth mae arnynt ei angen.

Rydym yn arddangos gwybodaeth ddiogelwch ar ein holl drenau ynghylch beth i'w wneud os bydd argyfwng, sy'n beth prin iawn. Mae ein canllawiau ar adael y trên mewn argyfwng naill ai yn y manau ger y drysau, ar waliau'r cerbydau neu wrth ochr y seddi.

## **Darparu canllawiau mewn fformatau gwahanol**

I'w gwneud yn haws i bobl sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu, ac i bobl nad ydynt yn deall Saesneg, rydym yn defnyddio lluniau i wneud ein canllawiau mor glir ag sy'n bosibl.

Gall ein criw trên ddsbarthu fersiynau Braille o'n taflenni diogelwch i gwsmeriaid sy'n ddall neu'n rhannol ddall. Ar hyn o bryd, ni allwn ddarparu fersiynau Braille ar ein gwasanaethau 'gyrrwr yn unig'. Ond gallwch gael copi rhad ac am ddim gan ein tîm Teithio â Chymorth ar 0800 197 1329 cyn i chi deithio.

## **Cynorthwyo pobl ag anableddau i adael mewn argyfwng**

Mae ein cynlluniau argyfwng ar gyfer ein gorsafoedd a'n trenau yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i gynorthwyo pobl ag anableddau mewn argyfwng. Ac rydym yn hyfforddi ein holl griwiau trên ar weithdrefnau gadael mewn argyfwng.

---

Os oes argyfwng, yr opsiwn mwyaf diogel i gwsmeriaid bron bob amser yw aros ar y trê'n nes bod ein staff wedi asesu'r sefyllfa'n llawn. Os bydd angen gwagio'r trê'n mewn argyfwng, y lle mwyaf diogel i wneud hyn yw mewn gorsaf. Felly, ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle mae perygl i fywyd, gofynnwn i'n cwsmeriaid ag anabledau aros ar y trê'n nes i'r gwasanaethau brys gyrraedd.

# Beth am gysylltu â ni?



---

Rydym bob amser yn awyddus i glywed unrhyw adborth ar y cymorth rydym yn ei roi a sut mae'n effeithio ar gwsmeriaid sy'n teithio gyda ni.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig, neu os hoffech sôn wrthym am eich profiad o'n cymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni. Gallwch ysgrifennu at ein Rheolwr Symudedd a Chynhwysiant:

Mobility and Inclusion Manager

Freepost GWR CUSTOMER SUPPORT

### **Agweddau eraill ar ein gwasanaeth**

Os oes gennych adborth am unrhyw agwedd arall ar ein gwasanaeth, dyma sut gallwch gysylltu â ni:

Ysgrifennwch at:

Freepost GWR CUSTOMER SUPPORT

E-bost: [GWR.feedback@GWR.com](mailto:GWR.feedback@GWR.com)

Ffôn: 03457 000 125\*

---

# Atodiad A



Mae'r llwybrau a ddangosir yn y tablau hyn at ddibenion dangosol yn unig. Er mwyn cadw'r hyblygrwydd angenrheidiol gyda'n fflyd efallai y bydd angen, weithiau, newid y math o drên ar lwybr heb lawer o rybudd neu ddim rhybudd o gwbl.

Mae'r seddi blaenoriaeth, pan fônt ar gael, yn y fynedfa i'r cerbyd ger y drysau i fynd allan a'r toiledau.

### **Dosbarth: HST - Trên Cyflym (High Speed Train)**

Fel arfer yn teithio ar: Lwybrau ar y brif linell o Lundain Paddington i Fryste, Caerdydd, Abertawe, Cheltenham Spa, Worcester, Henffordd, Weston-super-Mare, Taunton, Exeter, Plymouth a Chernyw.

Adeiladwyd	1976–1982 (adnewyddu'r tu mewn yn 2008)
Nifer o unedau	53
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes, dau le yn 'C' (safonol) ac un yn 'L' (dosbarth cyntaf). Lled 700mm (610mm yng nghanerbyd 'L'), hyd 1200mm
Toiled hygyrch	Oes – Cerbyd 'C'
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Dim sgriniau, system sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trên	Oes
Cadw seddi	Oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wifi	Oes

## **Trenau a dynnir gan locomotif (Trên dros nos â cherbydau cysgu)**

Llwybrau ar y brif linell o Lundain Paddington i Penzance.

Adeiladwyd	1982–1984
Nifer o unedau	2 wasanaeth bob nos
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Mae un lle i gadair olwyn gyda sedd gerllaw i gydymdaith yng ngherbyd B. Nid oes gwelyau hygyrch
Toiled hygyrch	Oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trên	Oes
Cadw seddi	Oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

Noder: mae'r cerbydau'r cysgu'n cael eu hadnewyddu i gynnwys toiled hygyrch a chabin hygyrch ar wahân.

## Dosbarth 165/1 – trenau diesel tyrbo 2 a 3 cherbyd

Prif lwybrau: Gwasanaethau araf o Lundain Paddington ar hyd Dyffryn Tafwys (gan gynnwys llinellau cangen), North Downs a llinell gangen Basingstoke a llwybrau o gwmpas Bryste.

Adeiladwyd	1992/93
Nifer o unedau	36
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Nac oes – lle yng nghynteddau'r trêrn
Toiled hygyrch	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Bar sgrolio digidol, system sain awtomatig ac a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trêrn	Nac oes – mewn gorsafoedd yn unig
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Nac oes
Wi-Fi	Oes

Noder: mae'r trenau Dosbarth 165 yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd a bydd yr unedau'n cael eu haddasu'n raddol i gynnwys toiled hygyrch. Ar yr un pryd, bydd y safle dynodedig i gadeiriau olwyn yn cael ei symud i fod yn gyfagos i'r toiled hygyrch.

### **Dosbarth: 166 – trenau diesel tyrbo 3 cherbyd**

Prif lwybrau: Gwasanaethau cyflym o Lundain Paddington ar hyd Dyffryn Tafwys i Rydychen a Newbury, Cotswolds. Hefyd, mae'r trenau hyn yn teithio rhwng Maes Awyr Gatwick, Reading a llwybrau o gwmpas Bryste

Adeiladwyd	1992 - 1993
Nifer o unedau	21
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygyrch	Oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Bar sgrolio digidol, system sain awtomatig ac a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Nac oes – mewn gorsafoedd yn unig
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

---

### **Dosbarth: 150/0 – trenau diesel 3 cherbyd**

Prif lwybrau: Llwybrau o gwmpas Bryste

Adeiladwyd	1985
Nifer o unedau	2
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygyrch	Oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Bar sgrolio digidol, system sain awtomatig ac a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trêrn	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes – yn cael ei osod ar hyn o bryd

## **Dosbarth: 150/1 – trenau diesel 2 gerbyd**

Prif lwybrau: Llwybrau o gwmpas Bryste.

Adeiladwyd	1986
Nifer o unedau	15
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygyrch	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes - yn cael ei osod ar hyn o bryd

**Dosbarth: 150/1 – trenau diesel 3 cherbyd â cherbyd canol 150/2**

Prif lwybrau: Llwybrau o gwmpas Bryste.

Adeiladwyd	1986
Nifer o unedau	2
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygrych	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes – yn cael ei osod ar hyn o bryd

**Dosbarth: 150/2 – trenau diesel 2 gerbyd**

Prif lwybrau: o gwmpas Bryste.

Adeiladwyd	1986–1987 (adnewyddwyd yn 2002 a 2007–2008)
Nifer o unedau	19
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Mae lle i gadeiriau olwyn yn y man hyblyg yn rhan y teithwyr ger y drysau y tu ôl i gaban y gyrrwr yn un o'r ddau gerbyd
Toiled hygrych	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes

### **Dosbarth: 150/2 – trenau diesel 2 gerbyd (parhad)**

Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes – cael ei osod ar hyn o bryd

Noder: mae'r gwaith o adnewyddu'r trenau Dosbarth 150 bron wedi'i gwblhau, gan addasu'r unedau i ddarparu toiled hygyrch a gwell gwybodaeth i deithwyr a symud y safle dynodedig i gadeiriau olwyn i fod yn gyfagos i'r toiled hygyrch.

### **Dosbarth: 153 – trenau diesel un cerbyd**

Prif lwybrau: gwasanaethau llinellau cangen Dyfnaint a Chernyw ac o gwmpas Bryste.

Adeiladwyd	1987 (troswyd yn unedau un cerbyd 1991-1992, adnewyddwyd 2007)
Nifer o unedau	14
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Mae tair sedd yn y cerbyd yn codi i greu lle i gadair olwyn
Toiled hygyrch	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes



## Dosbarth: 158 – trenau diesel 2 a 3 cherbyd

Prif lwybrau: Gwasanaethau ar y brif linell rhwng Caerdydd, Portsmouth, Exeter, Bryste a Worcester trwy Gloucester.

Adeiladwyd	1990–1992 (adnewyddwyd yn 2007)
Nifer o unedau	13 x 3 cherbyd a 2 x 2 gerbyd
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Mae lle i gadeiriau olwyn ar gael ger y seddi blaenoriaeth (65-66). Mae sedd gyda bwrdd plygu ar gael hefyd
Toiled hygyrch	Oes, yn y cerbyd canol ar drenau 3 cherbyd
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trê	Oes
Cadw seddi	Oes (pellter hir yn unig)
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

Noder: mae'r trenau Dosbarth 158 yn cael eu hadnewyddu a byddant yn cael eu haddasu'n raddol i gynnwys gwell gwybodaeth i deithwyr.

## **Dosbarth: 143 – trenau diesel 2 gerbyd**

Prif lwybrau: Gwasanaethau lleol yn ardal Exeter.

Adeiladwyd	1985
Nifer o unedau	8
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Mae lle i gadeiriau olwyn yn y man hyblyg ger y drws y tu ôl i gaban y gyrrwr
Toiled hygyrch	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	System sain a weithredir â llaw
Ramp cludadwy ar y trêrn	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Nac oes

**Dosbarth 387 EMU – uned luosog drydan**

Prif lwybrau: Gwasanaethau araf o Lundain Paddington ar hyd Dyffryn Tafwys i Didcot Parkway (ac o Ionawr 2019 ymlaen, i Newbury).

Adeiladwyd	2015/16
Nifer o unedau	45
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygyrch	Oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Oes
Ramp cludadwy ar y trêrn	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

## **Dosbarth 80x – Trenau Cyflym Rhwng Dinasoedd - (IET)**

Prif lwybrau: Byddant yn cael eu cyflwyno yn raddol yn ystod 2018 ar lwybrau'r prif linellau o Lundain Paddington i Fryste, Caerdydd, Abertawe, Cheltenham Spa, Worcester, Henffordd, Weston-super-Mare, Taunton, Exeter, Plymouth, Penzance a gwasanaethau lled-gyflym i Newbury a Bedwyn.

Adeiladwyd	2017
Nifer o unedau	93 (trenau 5 cerbyd a 9 cerbyd)
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Oes
Toiled hygyrch	Oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Oes
Ramp cludadwy ar y trêen	Oes
Cadw seddi	Oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

## Dosbarth 255 trenau Dosbarth Cestyll

Prif lwybrau: Gwasanaethau araf o Penzance i Gaerdydd

Adeiladwyd	1976 -1982 (yn cael eu hadnewyddu 2018)
Nifer o unedau	11
Arwyddion gadael mewn argyfwng â lluniau	Oes
Safle dynodedig i gadeiriau olwyn	Nac oes
Toiled hygyrch	Nac oes
Canllawiau cydio â lliwiau cyferbyniol	Oes
Gwybodaeth i deithwyr	Oes
Ramp cludadwy ar y trêrn	Oes
Cadw seddi	Nac oes
Seddi blaenoriaeth	Oes
Wi-Fi	Oes

Noder: Mae'r trenau Dosbarth 255 yn cael eu haddasu i gynnwys toiled hygyrch a safle dynodedig i gadeiriau olwyn

Rydym bob amser yn awyddus i glywed unrhyw adborth ar y cymorth rydym yn ei roi a sut mae'n effeithio ar gwsmeriaid sy'n teithio gyda ni.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig, neu os hoffech sôn wrthym am eich profiad o'n cymorth, mae croeso i chi gysylltu â ni. Gallwch ysgrifennu at ein Rheolwr Symudedd a Chynhwysiant:

Mobility and Inclusion Manager

Freepost GWR CUSTOMER SUPPORT

### **Agweddau eraill ar ein gwasanaeth**

Os oes gennych adborth am unrhyw agwedd arall ar ein gwasanaeth, dyma sut gallwch gysylltu â ni:

Ysgrifennwch at:

Rhadbost GWR CUSTOMER SUPPORT

E-bost: [GWR.feedback@GWR.com](mailto:GWR.feedback@GWR.com)

Ffôn: 03457 000 125\*

---

# Nodiadau





---

## Rhagor o wybodaeth



Freepost GWR Customer Support  
**GWR.com**  
**03457 000 125\*** (0600 i 2300 bob dydd)



Rydym ar Facebook Messenger  
Chwiliwch am **Great Western Railway**



Dilynwch ni **@GWRHelp**



Lawrlwythwch ein ap  
i brynu tocynnau a gwirio amserau trenau.  
Chwiliwch am **GWR** yn eich siop apiau



Enillwch bwyntiau Nectar  
wrth brynu ein tocynnau trên  
ar lein ar **GWR.com**



Peidiwch â methu'r cynigion diweddaraf,  
bargeninon arbennig a newyddion oddi wrth  
GWR. Cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn  
awr ar **GWR.com/enews**

\* Codir ffioedd safonol eich rhwydwaith  
Gall costau galwadau o ffonau symudol fod yn uwch